Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser, Porthaethwy
## Dyddiad yr arolygiad: 08 Chwefror 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 11 Mai 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN Digidol 978-1-80535-985-2
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd sydd mewn cyflwr da.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser yn meddu ar y sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i weithredu'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau na meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r Ganolfan Harddwch a Therapi Laser ar 8 Chwefror 2023.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r Ganolfan Harddwch a Therapi Laser wedi'i chofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei bod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Goleuni Pwls Dwys mewn lleoliad ar Telford Road, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5DR. Mae IPL yn dechnoleg ffynhonnell goleuni sbectrwm eang ac fe'i defnyddir gan ymarferwyr cosmetig a meddygol i gyflawni amrywiaeth o driniaethau croen at ddibenion esthetig a therapiwtig. Cafodd y clinig ei gofrestru am y tro cyntaf ag AGIC yn 2013.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm o staff yn cynnwys tri defnyddiwr awdurdodedig.

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i gleifion dros 16 oed (*ac eithrio gwaredu tatŵau) fel a ganlyn:

a) System AQS Lynton Lumina (Rhif cyfresol LUM-544) ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Briwiau fasgwlaidd (gan gynnwys mân wythiennau ac acne rhosynnaidd)
- Briwiau pigmentog
- Creithiau acne
- Gwaredu tatŵau* (dim ond i gleifion 18 oed a throsodd)
- Marciau ymestyn
- Llinellau dyfnach a chrychau
- Ewinedd ffwngaidd
- Mân wythiennau ar yr wyneb neu “wythiennau toredig” a mannau geni staen gwin port.

b) System Lynton Lumina (Rhif cyfresol LUM-629) ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew

- Briwiau fasgwlaidd (gan gynnwys mân wythiennau)
- Adfywio'r croen
- Briwiau pigmentog
- Acne
- Creithiau acne
- Ewinedd ffwngaidd
- Mân wythiennau ar yr wyneb neu “wythiennau toredig” a mannau geni staen gwin port.

c) Quanta Plus C Evo Nd: System Laser Yag a Ruby (Rhif cyfresol QCE0870-0617) ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵau* (dim ond i gleifion 18 oed a throsodd)
- Gwaredu pigmentog
- Adfywio'r croen
- Marciau ymestyn
- Creithiau acne
- Llinellau dyfnach a chrychau.

d) Lynton Deka Motus AY Alexandrite ac Nd: System laser YAG (Rhif cyfresol M115A1-QX222204) ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Briwiau fasgwlaidd (gan gynnwys mân wythiennau)
- Briwiau pigmentog
- Adfywio'r croen
- Ewinedd Ffwngaidd.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Nodwyd gennym fod y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrando ar y cleifion
- Roedd gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnig
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer cael gwybod safbwyntiau'r cleifion.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

> *"Rwyf wedi cael gofal ardderchog. Mae'r staff wastad yn barod i wrando ar bryderon ac yn gallu rhoi tawelwch meddwl i mi. Maen nhw hefyd yn wybodus iawn ac wedi awgrymu triniaethau eraill pan fo'n briodol."*
>
> *"Proffesiynol iawn gyda gwên gyfeillgar a llawer o wybodaeth"*
>
> *"Mae'r tîm yma yn wych, yn gynnes ac yn gyfeillgar. Byddwn yn eu hargymell heb feddwl dwywaith. Maen nhw bob amser wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus."*
>
> *"Mae'r tîm bob amser yn gyfeillgar, yn ofalgar ac yn broffesiynol iawn."*
>
> *"Hollol wych"*
>
> *"Safon gofal ardderchog bob amser."*
>
> *"Awyrgylch cyfeillgar a hamddenol bob tro, yn groesawgar iawn."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Nodwyd gennym fod y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r staff yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu dealltwriaeth o ble a sut i gael cyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y clinig a'r ystafelloedd trin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon uchel
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn fodlon ar eu triniaethau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Gwasanaeth personol, bob amser yn hapus iawn ag unrhyw driniaeth."*

*"Gwasanaeth cwsmeriaid a mesurau iechyd a diogelwch rhagorol."*

*"Bob tro'n lân, yn daclus ac ystyriol."*

*"Bob tro'n broffesiynol iawn ac yn lân, amgylchedd cynnes."*

*"Gwasanaeth a gweithdrefnau rhagorol, gwasanaeth caredig a phroffesiynol iawn."*

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Mae gan y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser dîm sefydledig ag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y wybodaeth i gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydweithio'n dda fel rhan o dîm.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

